**Ieuan Wyn Jones AC/AM**
**Dirprwy Brif Weinidog /Deputy First Minister**

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref: WAQ 54955
Nicholas Bourne AC
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

16 Hydref 2009

Annwyl Nick,

*Parthed: "Pa gyswllt mae'r Gweinidog wedi'i gael gydag Adrannau a Gweinidogion Llywodraeth y DU ynghylch strategaeth weithgynhyrchu ar gyfer Cymru."*

Yn dilyn yr ateb dros dro a dderbynioch i WAQ 54955, yr wyf bellach mewn sefyllfa i allu rhoi ateb i chi.

Mae fy Adran yn cysylltu'n gyson â'r Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau (BIS), yn dilyn ein hymwneud â rhan gynnar y broses o ddatblygu Strategaeth Gweithgynhyrchu'r DU "Manufacturing: New Challenges, New Opportunities".

Rydym hefyd mewn cyswllt â'r Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau mewn perthynas â'r strategaeth "New Industries New Jobs" a gweithgareddau eraill sy'n ymwneud â gweithgynhyrchu ac sy'n cael eu noddi gan Lywodraeth y DU gan gynnwys, er enghraifft gwaith y Bwrdd Strategaeth Technoleg a'r Tîm Arloesi a Thwf newydd ym maes Moduron.

Mae Strategaeth Gweithgynhyrchu'r DU yn rhoi'r cyd-destun ar gyfer gwaith Fforwm Gweithgynhyrchu Cymru gyda'i ymdrechion i ddatblygu Strategaeth G weithgynhyrchu i Gymru.

**Ieuan Wyn Jones**
**Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth**
**Minister for the Economy and Transport**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Ffacs * Fax 029 2089 8198
PS.DeputyFirstMinister@wales.gsi.gov.uk